Mae …… gyda fi / *I've got*

Themau - *Themes*

Meddiant / *Possession*

Patrymau laith - *Language patterns*

Meddiant / *Possession*

Dyn ni'n defnyddio 'gyda' i nodi meddiant
We use 'gyda' to denote possession

'Mae car gyda fi' *I've got a car.*

Mae ….gyda fi	I have got a ….
Mae …. gyda ti / fe / hi /	You / he / she have got.
Mae …. gyda ni / chi/ nhw	we / you / they have got …..
Mae …gyda John / gyda'r plant	John / the children have got a …..

Cwestiwn / *Question*
Oes matsys gyda ti? *Have you got matches?*

Ateb / *Answer*
Oes / Nac oes *Yes / No*

Negyddol/ Negative
Does dim syniad gyda fi. *I've got no idea. ….*

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio task*
Atebwch y cwestiynau hyn.
Answer these questions.

1. Beth yw enw'r fam?
2. Beth yw enw'r mab?
3. Beth mae'r mab yn wisgo?
4. Beth yw diddordebau'r mab?
5. Ble mae'r mab?
6. Ble mae'r mab yn mynd wedyn?

Tasg fideo / *Video task*
Pa un o'r geiriau hyn sy DDIM yn y ddeialog?
Which one of these words are NOT in the dialogue?

1. creision
2. selsig
3. caws
4. grawnwin
5. brechdanau ham
6. jeli
7. brechdanau caws
8. matsys
9. canhwyllau
10. bisgedi siocled
11. sudd oren
12. sudd afal
13. bagiau parti

Sgript Sain – *Audio Script*

Mam: Esgusodwch fi! Mae problem fawr gyda fi!

Rheolwr: O diar! Beth sy'n bod?

Mam: Dw i wedi bod yn siopa gyda'r mab ond mae e ar goll nawr!

Rheolwr: Dewch i eistedd. Reit. Beth yw'ch enw chi, os gwelwch yn dda?

Mam: O! Nicola Hughes dw i.

Rheolwr: A beth yw enw'ch mab, Nicola?

Mam: Rhodri. Rhodri Hughes. Mae e'n saith oed.

Rheolwr: Oes ffôn symudol gyda fe?

Mam: Nag oes! Saith oed ydy e!

Rheolwr: Ie, wrth gwrs! Beth mae e'n wisgo?

Mam: Mae e'n gwisgo dillad pêl-droed Arsenal. Mae e'n hoffi tîm Arsenal yn fawr iawn.

Rheolwr: Beth arall mae e'n hoffi wneud?

Mam: Mae llawer o ddiddordebau gyda fe. Mae e'n hoffi nofio, chwarae rygbi, chwarae pêl-droed a gwylio'r teledu.

Rheolwr: Chwarae pêl-droed? Mmm. Gwylio'r teledu? Mmm. A! Iawn. Dewch gyda fi, Nicola.

Mam: Ble dyn ni'n mynd?

Rheolwr: Mae gêmau pêl-droed Cwpan y Byd ar y teledu ar hyn o bryd, ar setiau teledu y siop.

Mam: O! Rhodri! Dyma ti!

Rhodri: O! Helo Mam! Mae gêm wych ar y teledu nawr. Dwy gôl yr un! Ga i weld diwedd y gêm?

Mam: Does dim amser gyda ni! Mae gwers nofio gyda ti.

Rheolwr: Hapus nawr, Nicola? Mae e'n hapus ta beth!

Mam: O! Ydw, diolch yn fawr iawn i chi am helpu. Mae YN flin gyda ni!

Rheolwr: Dim problem! Hwyl nawr! Joiwch y nofio!

Geirfa

ar goll – *lost*
ffôn symudol – *mobile phone*
diddordebau - interests
dewch - *come*
ar hyn o bryd – *at the moment*
diwedd – *end*
gwers - *lesson*
ta beth – *anyway*

Sgript Fideo - *Video Script*

STEFFAN: O mae pen tost gyda fi.

STEFFAN: Ydy popeth yn barod gyda ni?

MARGED: Popeth yn barod gyda ni! Popeth yn barod gyda fi ti'n feddwl!

MARGED: Mae creision gyda ni.

SION: Mae selsig gyda ni.

MARGED: Mae caws gyda ni.

SION: Mae grawnwin gyda ni.

MARGED: Mae brechdanau ham gyda ni.

SION: Mae brechdanau caws gyda ni.

MARGED: Oes matsys gyda ti?

STEFFAN: Matsys?

MARGED: Ar gyfer y canhwyllau! Ble mae'r matsys?

STEFFAN: Does dim syniad gyda fi!

STEFFAN: Dyma'r matsys!

MARGED: Diolch byth.

SION: Mae bisgedi siocled gyda ni.

MARGED: Dim nawr Sion!

SION: Ga i fynd i'r parc mam?

MARGED: Does dim amser gyda ni.

SION: Oes gyda chi rhywbeth i ni yfed?

STEFFAN: Oes. Mae sudd oren a sudd afal gyda ni.

SION: Bagiau parti!

MARGED: Mae'r plant i gyd yn cael bagiau parti.

SION: O gret!

MARGED: Reit. Dwi'n meddwl fod popeth yn barod.

STEFFAN: Ydy. Mae popeth yn barod..gyda ni.

Geirfa

barod – *ready*
creision – *crisps*
selsig – *sausage*
caws – *cheese*
grawnwin – *grapes*
brechdanau – *sandwiches*
canhwyllau – *candles*
syniad – *idea*
sudd – *juice*

Atebion - *Answers*

Tasg Sain / *Audio Task*
1. Beth yw enw'r fam? Nicola Hughes yw enw'r fam.
2. Beth yw enw'r mab? Rhodri Hughes yw enw'r mab.
3. Beth mae'r mab yn gwisgo? Mae'r mab yn gwisgo dillad pêl-droed Arsenal.
4. Beth yw diddordebau'r mab? Mae'r mab yn hoffi nofio, chwarae pêl-droed, chwarae rygbi a gwylio teledu.
5. Ble mae'r mab? Mae'r mab yn gwylio teledu yn y siop.
6. Ble mae'r mab yn mynd wedyn? Mae'r mab yn mynd i wers nofio wedyn.

Tasg Fideo / *Audio Video*
Jeli.